

PWYLLGOR TRWYDDEDU

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Dref, Rhuthun a thrwy gynhadledd fideo ddydd Mercher, 4 Rhagfyr 2024 am 9.30 am.

YN BRESENNOL

Y Cyngorwyr Joan Butterfield, Ellie Chard, Gwyneth Ellis, Bobby Feeley (Cadeirydd), Hugh Irving (Is-gadeirydd), Alan James, Brian Jones, Delyth Jones, Paul Keddie, ac Andrea Tomlin.

HEFYD YN BRESENNOL

Ymgynghorydd Cyfreithiol (LB), Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd, Adfywio a Datblygu Economaidd (GR), Swyddogion Gorfodi - Trwyddedu (NS a KB), a Gweinyddwyr Pwyllgorau (KEJ a RTJ [Gweddarlledwr])

1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw faterion bryd.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 11 Medi 2024.

PENDERFYNWYD derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Medi 2024 a chadarnhau eu bod yn gywir.

5 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR TRWYDDEDU AR GYFER 2025

Cyflwynodd y Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd, Adfywio a Datblygu Economaidd (PPREDM) raglen waith y Pwyllgor i'w hystyried.

Mae'r rhaglen waith yn cyfeirio at flaenoriaethau'r Pwyllgor Trwyddedu, polisiâu perthnasol a dyddiadau adolygu ynghyd ag unrhyw newidiadau deddfwriaethol. Tynnwyd sylw'r aelodau at yr eitem sefydlog ar gyfer pob cyfarfod ar Weithdrefnau Arbennig a oedd yn dilyn cyflwyniad y cynllun trwyddedu gweithdrefnau arbennig gorfodol newydd ddaeth i rym ar 29 Tachwedd 2024. Tra bod hyfforddiant cychwynol wedi cael ei ddarparu i aelodau yn y cyswllt hynny byddai hyfforddiant

pellach yn cael ei ddarparu yn y dyfodol agos cyn i unrhyw eitemau gweithdrefnau arbennig gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor.

Ymatebodd y PPREDM i gwestiynau aelodau yn cadarnhau fod Gweithdrefnau Arbennig wedi cynnwys gweithdrefnau fel tatwio a thyllu'r corff a bod angen gweld trwydded yr eiddo a'r ymarferwyr. O ran adnoddau roedd pwysau gweinyddol cychwynol i drosglwyddo ymarferwyr cofrestredig presennol i'r cynllun newydd ond roedden nhw eisoes wedi bod yn destun arolwg ac roedd adnoddau ar gael i barhau gyda'r gwaith wrth symud ymlaen i fusnes fel arfer. Cadarnhawyd hefyd fod y rhan fwyaf o swyddogaethau o dan y ddeddfwriaeth newydd wedi cael eu dirprwyo i swyddogion ac mai dim ond mewn achosion penodol fel gwrthod trwydded posib neu ddi-ddymu trwydded y dylai'r mater gael ei gyflwyno o flaen y Pwyllgor cyn gwneud penderfyniad arno.

Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau fod yr hyfforddiant trwyddedu mewn perthynas â phwyllgorau, trwyddedau tacsis a'r Ddeddf Drwyddedu 2003 wedi cael ei drefnu ar gyfer y prynhawn hwnnw.

PENDERFYNWYD *derbyn a chymeradwyo'r rhaglen waith.*

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd

PENDERFYNWYD *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol, dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 a 13 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.*

6 CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT – YMGEISYDD RHIF 578447

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) ynglŷn â'r canlynol –

- (i) cais a dderbyniwyd am drwydded i yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat gan Ymgeisydd Rhif 578447;
- (ii) penderfyniad swyddogion i atgyfeirio'r cais at y Pwyllgor Trwyddedu i benderfynu arno oherwydd amgylchiadau penodol yr achos;
- (iii) mae'r Ymgeisydd wedi derbyn euogfarn ym mis Hydref 2019 ar gyfer ymosodiad cyffredin a heb ddatgan trosedd yrru fechan ar ei gais (bod yna ddim pwyntiau cosb ar ei drwydded yrru gan y DVLA);
- (iv) darparwyd gwybodaeth gefndir a dogfennau cysylltiedig yn ymwneud â'r achos yn cynnwys manylion yr euogfarnau a gafwyd ac eglurhad yr Ymgeisydd o'r digwyddiadau, datganiad personol, a geirda o ran cymeriad gan ei gyflogwr presennol;
- (v) polisi'r Cyngor mewn perthynas â pherthnasedd euogfarnau ac addasrwydd yr ymgeiswyr a thrwyddedau; a

- (vi) gwahoddwyd yr Ymgeisydd i fynychu'r cyfarfod i gefnogi'r cais ac i ateb cwestiynau'r Aelodau wedi hynny.

Roedd yr ymgeisydd yn bresennol er mwyn cefnogi ei gais.

Cyflwynodd y Swyddog Gorfodi Trwyddedu (NS) yr adroddiad a ffeithiau'r achos.

Cynghorwyd Aelodau o'r gofyniad i'r Ymgeisydd gyflwyno Tystysgrif Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd diweddar (o ystyried fod y ddogfen wreiddiol yn fwy na thri mis oed) a disgwylir y dystysgrif yn fuan. Mae'r Ymgeisydd wedi sicrhau fod yna ddim newidiadau i'r Dystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Mae'r Ymgeisydd wedi egluro'r amgylchiadau ynghylch yr euogfarn, heb unrhyw drais neu fwriad, ac wedi mynegi edifeirwch am y digwyddiad. Mynegodd ei fod yn ddyn teulu a ddim o natur dreisgar.

Gofynnwyd am eglurhad ar y dolenni polisi i droseddau yn cynnwys trais yn yr achos hwn ac fe eglurodd y Swyddog Gorfodi Trwyddedu y diffiniad cyfreithiol a graddfa symudol gydag ymosodiad cyffredinol ar y lefel isaf heb achosi unrhyw anafiadau yn yr achos penodol hwn. Darparodd polisi'r Cyngor grynodedd cyffredinol o droseddau o'r fath ac roedd gwaith yn cael ei wneud yn genedlaethol er mwyn adlewyrchu'r natur fanwl o droseddau o'r fath mewn polisi'r dyfodol wrth symud ymlaen. Wrth ymateb i gwestiynau fe eglurodd yr Ymgeisydd sut yr oedd y llysoedd wedi cael gwared ar y drosedd a chynghorodd nad oedd wedi cael unrhyw euogfarnau eraill cyn nac ar ôl y drosedd. Cadarnhaodd ei alwedigaeth bresennol a oedd yn cynnwys gyrru a dyma'r rheswm y tu ôl i'w gais a'i fwriad am gyflogaeth yn y dyfodol. Darparodd eglurhad ynghylch y drosedd yrru fychan a'i fethiant i'w ddatgelu ar y cais.

O ran datganiad terfynol yr Ymgeisydd fe gadarnhaodd nad oedd ganddo unrhyw beth i'w ychwanegu.

Gohiriwyd y Pwyllgor er mwyn ystyried y cais a –

PENDERFYNWYD bod Ymgeisydd Rhif 578447 yn unigolyn cymwys ac addas i feddu at Drwydded Yrru Cerbyd Hacni a Cherbydau Hurio Preifat a chymeradwyo'r cais ar yr amod bod yr awdurdod lleol yn derbyn Tystysgrif GDG gyfredol a boddhaol.

[Ni bleidleisiodd y Cynghorydd Paul Keddie ar y mater am nad oedd yn bresennol ar gyfer yr holl eitem.]

Dyma resymau'r Pwyllgor Trwyddedu dros y penderfyniad –

Roedd yr aelodau wedi ystyried y dystiolaeth yn ofalus wrth wneud eu penderfyniad.

Ystyriodd y Pwyllgor bod yr Ymgeisydd wedi ei gael yn euog am drosedd yn ymwneud â thrais, a rhoddwyd cryn bwysau i'r euogfarn honno gan mai nod

cyffredinol yr awdurdod trwyddedu wrth wneud ei waith yn ymwneud â thrwyddedu gyrwyr oedd gwarchod y cyhoedd. Gwelodd hefyd ei fod yn fater difrifol yn unol â'u canllawiau polisi ynghylch troseddau yn ymwneud â thrais.

Ystyriodd yr aelodau'r canllawiau polisi oedd yn nodi na ddylid rhoi trwydded am 10 mlynedd wedi i'r ddedfryd am drosedd yn ymwneud â thrais ddod i ben. Fodd bynnag fe benderfynodd aelodau i wyro oddi wrth y canllawiau ar yr agwedd hon gan ei fod y lefel isaf o ymosodiad cyffredin a gan fod cyfnod hir o amser wedi bod ers yr euogfarn a'r ddedfryd, a bod yr Ymgeisydd wedi egluro'r amgylchiadau ynghylch y drosedd ac oherwydd hynny roedd yr aelodau'n fodlon. Cafodd aelodau hefyd eu hannog bod yr Ymgeisydd heb gyflawni unrhyw droseddau eraill cyn nac ar ôl hynny. Felly, ystyriwyd nad oedd yr Ymgeisydd yn debygol o droseddu yn yr un ffordd eto a rhoddwyd pwysau i'r ffactorau hyn wrth benderfynu bod yr Ymgeisydd yn unigolyn cymwys ac addas i feddu ar Drwydded Gyrrwr Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat. Gan gadw hynny yn y cof fe benderfynodd yr aelodau i gymeradwyo'r cais yn amodol ar ddim euogfarnau pellach yn cael eu datgelu ar Dystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd mwyaf diweddar. Yn yr achos bod Tystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd mwyaf diweddar yn dangos euogfarnau pellach bydd yr achos yn dod ger bron y Pwyllgor am adolygiad pellach.

Hefyd mynegodd y Pwyllgor bryder am fethiant yr Ymgeisydd i ddatgelu'r drosedd yrru fechan ond derbyniwyd yr eglurhad a gafwyd gan Swyddog Gorfodi Trwyddedu a'r Ymgeisydd mewn perthynas â pheidio â'i datgelu.

Yn gyffredinol, ystyriodd y Pwyllgor bod cymeriad yr Ymgeisydd a'r holl amgylchiadau yn ddigon i fod yn drech na'u pryderon wrth benderfynu bod yr Ymgeisydd yn unigolyn cymwys ac addas i feddu ar Drwydded Yrru Cerbyd Hacni a Cherbydau Hurio Preifat.

Felly, cafodd penderfyniad a rhesymau'r Pwyllgor eu cyfleu i'r Ymgeisydd.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.20am.